**CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU (PBC) 9 – CAMAU GWEITHREDU**
**5 MAWRTH 2013, SWYDDFEYDD LLYWODRAETH CYMRU, ABERYSTWYTH**

**Yn Bresennol:** Matthew Quinn (Cadeirydd), Llywodraeth Cymru (LlC); John Watkins, Llywodraeth Cymru/Cadeirydd Canlyniad 21; Dave Martyn, Cynghorydd Polisi Llywodraeth Cymru; Sean McHugh, Tîm Cefnogi PBC; Francis Dixon, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig; Charles Morgan, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Ucheldir; Helen Buckingham, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir; Julia Korn, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Dinesig a Thir Llwyd/Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Gwlyptir; Huw Jones, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw; Chris Tucker , Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Coetir; Paul Brazier, Cyd-gadeirydd y Grŵp Ecosystem Morol; Peter Rhind, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol; Stephen Bladwell, Cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau; Dave Thomas, Cadeirydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol.
**Ymddiheuriadau**: Tracey Lovering, Cydlynydd Cadeiryddion PBC/Cynghorydd Ecosystemau; Peter Jones, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Gwlyptir; Mark Bleasdale? Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt; Pete Frost, Grŵp Ecosystem Dinesig a Thir Llwyd; Caryn Le Roux, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig; Tristan Hatton Ellis, Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw

| Rhif | Pwy/Cam gweithredu | Pwy | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1 | 1. Manylion aelodaeth Grwpiau PBC wedi'u diweddaru<br>2. Cylch gorchwyl neu ddatganiad o ddiben/gorchwyl gwreiddiol pob Grŵp<br>3. Rhaglen waith 2013-14 neu amlinelliad o feysydd gwaith â blaenoriaeth 2013-14.<br><br>Anfon at Tracey Lovering | **Pob Cadeirydd** | **15 Mawrth 2013** |
| 2 | Trafodwyd cylch gorchwyl Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru (BSBC)/cynnig aelodaeth drafft yn ogystal â'r strwythur grwpiau a amlinellir yn siart drefniadaeth ddrafft y Fframwaith Bioamrywiaeth. Bydd John Watkins yn ymgorffori'r holl sylwadau a dderbynnir gan gynnwys sylwadau a wneir yng nghyfarfod Grŵp Llywio PBC Rhif 19. | **JW** | **Cyn cyfarfod BSBC ar 28ain Mawrth 2013** |
| 3 | Amlinellodd Steve Spode Fframwaith Dull yr Ecosystem. Pecyn cymorth i sefydlu ac integreiddio dull yr ecosystem. Cam profi a dysgu ar hyn o bryd. Cynlluniau peilot gyda chyrff anllywodraethol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Natur (Pumlumon) ac yn fewnol gyda rhaglenni LlC. Mae Steve yn hapus i drafod egwyddorion a amlinellir yn y fframwaith, a materion sy'n ymwneud ag integreiddio, ymhellach. | **Pob Cadeirydd** | **-** |
| 4 | Pob Cadeirydd i rannu adborth ar y tabl bylchau tystiolaeth[1] gyda'u Grwpiau trwy gyfrwng e-bost, a:<br>1) mynd i'r afael ag unrhyw sylwadau a ddarperir;<br>2) nodi, trwy ymgynghori â'u Grwpiau, y bylchau tystiolaeth sy'n **flaenoriaeth** i'r Grŵp a'u hamlygu mewn coch, oren a melyn, gan ddibynnu a ydynt yn flaenoriaeth uchel, ganolig neu isel; a<br>3) cytuno ar arweinydd prosiect ymchwil o'r Grŵp ar gyfer pob bwlch tystiolaeth sy'n flaenoriaeth *(lle y gall y bwlch* | **Pob Cadeirydd** | **12 Mawrth 2013** |

[1] Bylchau Tystiolaeth PBC 2012 – sylwadau MB RMcC CW – Tachwedd 2012

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *tystiolaeth dan sylw gael ei lenwi trwy brosiect(au) ymchwil).* Yr arweinydd i gyflwyno Cynnig Prosiect[2] wedi'i gwblhau i Tracey Lovering[3] ar gyfer pob prosiect ymchwil. Bydd hyn yn goleuo'r cyfarfod academaidd ar **15fed Mawrth**<br><br>Mae CNC yn trafod lleoliadau a chymrodoriaethau gyda sefydliadau academaidd mewn trefniant partneriaeth sector cyhoeddus posib. Ceri Davies sy'n arwain y gwaith yma. Bydd Matthew yn trafod menter academaidd PBC gyda Ceri i hwyluso cydlynu. | <br><br><br><br>**MQ** | <br><br><br><br>**31 Mai 2013** |
| 5 | Tudalennau Grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau/gweithgorau ar wefan PBC[4]. Mae cyfleoedd i:<br>Adolygu'r dudalen ar y wefan<br>Cynnwys cynlluniau gwaith/blaenoriaethau<br>Diweddaru adnoddau<br>Amlygu gweithgareddau prosiect e.e. prosiectau ERD<br><br>Awgrymodd y cadeiryddion y byddai tudalen 'pwy 'di pwy' yn y grŵp a ffurflen gysylltu gyffredinol ar wefan PBC yn ddefnyddiol. Bydd Sean McHugh yn gweithredu ar hyn. | **Pob Cadeirydd**<br><br><br><br><br><br>**SM** | **14 Mehefin 2013** |
| 6 | Cefnogi Gweithgarwch Lleol – seminar Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Amwythig 23ain Mai – manylion yn cael eu llunio. Bydd un elfen yn ymwneud â'r berthynas weithio gyda'r amryw grwpiau, felly croesewir sylwadau i oleuo'r seminar.<br><br>Anfon manylion rhaglen ddrafft y seminar at y Cadeiryddion<br><br>Mae prosiect safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol Rhanbarthol yn cael ei lunio i baratoi ar gyfer cynnig sylweddol am arian i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a byddai cymorth a sylwadau'r cadeiryddion i oleuo'r cynnig yn cael eu croesawu | **Pob Cadeirydd**<br><br><br><br><br>**SM** | |
| | **Camau gweithredu sy'n parhau** | | |
| i | Gan ddefnyddio'r Cynllunydd Gweithdai Mapio Blaenoriaethau, bydd y Cadeiryddion yn sicrhau bod y Grwpiau'n ychwanegu'r gweithdai nesaf a'r camau gweithredu o weithdai blaenorol (i'w cyflwyno i Sean McHugh)[5]. Bydd Stephen Bladwell a Sean McHugh yn rhannu'r Cyllunydd gyda'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau i hwyluso cynrychiolaeth o'r Grŵp yn y digwyddiadau hyn. | **Pob Cadeirydd** | **14 Mehefin 2013** |
| ii | Pob cadeirydd i anfon y Diweddariadau Grŵp a ddarparwyd yng Nghyfarfod Cadeiryddion 9 at Tracey Lovering, i'w cynnwys ar wefan PBC i gefnogi agenda a chamau gweithredu'r cyfarfod. | **Pob Cadeirydd** | **14 Mehefin 2013** |
| iii | Pob Grŵp Ecosystem i ailedrych ar y Mapiau Ardaloedd Blaenoriaeth Gweithredu a gyflwynwyd a'r data cysylltiedig. Cadeiryddion neu arweinyddion a enwebir i gydgasglu unrhyw newidiadau ac anfon mapiau GIS terfynol diwygiedig, a chamau gweithredu cysylltiedig, at Jan Sherry | **Pob Cadeirydd** | **14 Mehefin 2013** |

[2] Ffurflen Cynnig Prosiect Ymchwil PBC
[3] Darparwyd sylwadau gan Mike Bruford BrufordMW@cardiff.ac.uk, Rob McCall R.McCall@ccw.gov.uk a Clive Walmsley c.walmsley@ccw.gov.uk
[4] http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau
[5] smchugh@wtwales.org